

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT

Dydd Gwener, 28 Ionawr 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D. Price (Cadeirydd)

## Y Cynghorwyr:

S.M. Allen, L.R. Bowen, K.V. Broom, J.S. Edmunds (yn lle S.L. Davies), J.P. Jenkins, B.W. Jones, D. Jones, G.R. Jones, M.J.A. Lewis, K. Lloyd (yn lle R. James), E.M.J.G. Schiavone, E.G. Thomas a D.T. Williams.

## Aelodau Cyfetholedig:

A. Enoch - Rhiant-lywodraethwr  
F. Healey-Benson - Rhiant-lywodraethwr  
V. Kenny - Cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig Rufeinig Parchedig D. Richards  
Richards - Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru

## Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorwyr G. Davies, Aelod y Cabinet dros Addysg a Phlant; a D.M. Jenkins, Aelod y Cabinet dros Adnoddau

## Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant  
S. Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg  
A Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant  
S. Smith, Pennaeth Gwasanaethau Plant  
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol  
E. Forsyth, Pennaeth Dros Dro Effeithiolrwydd Ysgolion  
S. Nolan, Cyfrifydd Grŵp  
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd  
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd  
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd  
A. Eynon, Prif Gyfieithydd

## Rhith-Gyfarfod - 2.00 - 4.02 yp

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S. Davies a R. James.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Y Cynghorydd	Rhif(au) y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Dot Jones	4. Ymgysylltu ag Ysgolion	Mae ei mab yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Bryngwyn

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.

### **3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

### **4. YMGYSYLLTU YSGOLION**

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd J.D. James wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, ac arhosodd yn y cyfarfod].

Yn unol â'r Rhaglen Ymgysylltu ag Ysgolion y cytunwyd arni gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd 2021, cyflwynwyd adroddiad i'r Aelodau a oedd yn canolbwyntio ar y broses adfer wrth i ysgolion ddod allan o bandemig Covid-19.

Esboniwyd i'r Aelodau fod strwythur amgen, ar ffurf sesiynau ymgysylltu ag ysgolion ar-lein, wedi'i gyflwyno i gymryd lle ymweliadau ysgol dros dro yn ystod pandemig parhaus Covid-19, a fyddai'n galluogi'r Pwyllgor i barhau â'i swyddogaeth gwerthuso a gwella ysgolion.

Ystyriodd y Pwyllgor y cymorth ariannol a ddyrannwyd i ysgolion yn ystod 2021/22 drwy'r Rhaglen Dysgu Carlam, a oedd yn cynnwys Grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ychwanegol a ddarparwyd yn ddiweddar. Maes gorchwyl y Pwyllgor oedd canolbwyntio ar ddefnyddio'r cyllid ychwanegol a ddarperir i ysgolion i ddiwallu anghenion a gofynion y Grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, ym meysydd Dysgu Carlam, Carfanau Blaenoriaeth ar gyfer Cymorth a Diwygio'r Cwricwlwm.

Yna, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan gynrychiolwyr yr ysgol a oedd yn canolbwyntio ar y modd yr oeddent wedi mynd i'r afael â'r heriau a achoswyd gan bandemig Covid-19, yr effaith ar ddisgyblion a staff a'r heriau hirdymor canfyddedig sydd i ddod. Roedd trosolwg o sut yr oedd yr ysgolion wedi defnyddio'r arian ychwanegol a dderbyniwyd yn rhoi dealltwriaeth fanwl i'r aelodau o effaith cymorth yr Awdurdod Lleol ar ddarpariaeth ar draws system yr ysgolion. Roedd y pwyntiau allweddol dan sylw yn y cyflwyniad cynnwys y canlynol:

- Roedd diwylliant o ragoriaeth wrth wraidd yr ysgolion ffederal, a oedd yn galluogi blaenoriaethau a normau newydd i gael eu datblygu'n gyflym, gyda chyfathrebu a llesiant yn ganolog i strategaeth ddiwygiedig yr ysgol.
- Gwnaed nifer o addasiadau o fewn yr ysgolion ffederal yn yr ymdrech genedlaethol yn erbyn coronafeirws, gan gynnwys sefydlu a monitro grwpiau cyswllt, Profion Llif Unffordd, Aseidiadau Risg a chyflwyno dwy system asesu newydd. Roedd y camau lliniaru ffisegol yn cynnwys cyflwyno diheintyddion dwylo, gorchuddion wyneb, systemau unffordd, mynedfeydd dynodedig a pharthau dysgu 'swigod'.
- Roedd y cyllid grant yn galluogi'r ysgolion ffederal i gefnogi disgyblion mewn ffyrdd na fyddent fel arall wedi gallu cael eu darparu, gan gynnwys cyflwyno rolau ymgysylltu â rhieni, cynyddu capasiti pynciau craidd a gwella darpariaeth TGCh (o ran offer a sgiliau) i helpu gyda'r newid i ddysgu rhithwir a chyfunol.

- Roedd nifer o ganlyniadau cadarnhaol annisgwyl wedi deillio o bandemig Covid-19, a elwir gan yr ysgolion ffederal yn "*Covid keepers*"; roedd y rhain yn cynnwys:
  - Gwell perthynas â rhieni drwy gyfathrebu'n rheolaidd a hwyluswyd drwy ddefnyddio technoleg.
  - Dysgu cyfunol yn cael ei ystyried fel y sefyllfa bresennol newydd, gan alluogi dysgu hyblyg.
  - Rhannu arfer gorau, gan gynnwys archwilio llwyfannau a dulliau TGCh newydd. Cyhoeddwyd rhestr chwarae gan yr ysgolion ffederal yn ddiweddar ar HWB fel rhan o astudiaeth achos adnoddau genedlaethol Llywodraeth Cymru i hyrwyddo arfer gorau a hwyluso hunanwerthuso a gwelliant. Cytunwyd y byddai'r rhestr chwarae yn cael ei hanfon at y Pwyllgor.
  - Manteision cymdeithasol, gan gynnwys teithiau cerdded llesiant i gryfhau cydlyniant cymdeithasol ymhellach ymhlith disgyblion mewn grwpiau blwyddyn.
- Cyfeiriwyd hefyd at heriau diweddar a achoswyd gan 'Storm Barra' ym mis Rhagfyr 2021, a oedd wedi achosi difrod sylweddol i do adeilad ysgol Bryngwyn ac wedi arwain at gau'r ysgol tra bod gwaith atgyweirio yn cael ei wneud. Serch hynny, roedd y Pwyllgor yn falch o nodi na fu unrhyw amharu ar ddysgu disgyblion oherwydd y pontio di-dor i ddysgu ar-lein a symud disgyblion yn unol â threfniadau parhad busnes yr ysgol.

Rhodddwyd sylw i nifer o arsylwadau ac ymholiadau, fel a ganlyn:

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch 'dysgu a gollwyd' a chyflwyno system Raddio'r Ganolfan Asesu, rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod yr adnoddau ychwanegol a ddarparwyd gan gyllid grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn galluogi'r ysgol i ymateb yn briodol drwy gymorth TGCh a thechnegol ychwanegol i bontio'r bwch rhwng yr ysgol a chymunedau, Swyddogion Ymgysylltu â Rhieni i gefnogi teuluoedd â dysgu a defnyddio rhaglenni mentora a gwaith grŵp llai i ddarparu ymyriad priodol i feysydd angen. Hefyd, defnyddiwyd y cyllid grant ychwanegol i gynyddu'r gyllideb dros dro er mwyn mynd i'r afael â materion adnoddau staff a digon o leoedd ar gyfer parhad dysgu.

Mynegwyd pryderon nad oedd rhai disgyblion yn barod ar gyfer arholiadau ffurfiol, ac yn ogystal â hynny nad oeddent wedi cyrraedd y safon dysgu ddisgwyliedig o ganlyniad i bandemig Covid-19. Dywedodd cynrychiolwyr yr ysgol fod cymorth priodol yn cael ei ddarparu i sicrhau profiad cadarnhaol i bob disgybl, yn unol â phenderfyniadau cenedlaethol. Roedd data hefyd yn cael ei goladu gan yr ysgolion i sicrhau bod disgyblion yn cael eu graddio'n gywir pe bai unrhyw addasiadau'n cael eu gwneud i'r trefniadau asesu. Hefyd, tynnwyd sylw'r aelodau at y ffaith, er nad oedd pob disgybl wedi cyrraedd y safon dysgu ddisgwyliedig yn y pynciau craidd, fod pandemig Covid-19 wedi gwella sgiliau mewn meysydd fel gwytnwch, annibyniaeth a chreadigrwydd.

Cyfeiriwyd at system addysg Estonia a oedd wedi gwneud gwaith arloesol drwy gyflwyno 'bagiau e-ysgol' i hyrwyddo cynhwysiant digidol. Nododd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant y byddai atebion digidol addysg Estonia yn cael eu harchwilio ymhellach, ond rhoddwyd sicrwydd bod ystod eang o adnoddau dysgu digidol eisoes ar gael i ddisgyblion drwy blatfform HWB. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant ymhellach y byddai strategaeth ddigidol tymor hwy yn gofyn am adolygiad o drefniadau ariannu'r llywodraeth i ddarparu adnoddau priodol i ysgolion a disgyblion. Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd fod meysydd arfer gorau yn faes ffocws allweddol i ysgolion Sir Gaerfyrddin, a ddangoswyd gan yr amrywiaeth o fforymau sefydledig megis Rhwydweithiau Sefydliad Dysgu Ysgolion, Rhwydweithiau Ffocws Uwchradd, Rhwydweithiau Cynradd Uwchradd, yn ogystal â'r cydweithio parhaus rhwng Ymgynghorwyr Cymorth Addysg a chyfarfodydd Penaethiaid rheolaidd.

Yn dilyn ymholiad ynghylch dichonoldeb a hyblygrwydd darpariaeth dysgu cyfunol tymor hwy ar ôl Covid-19, sicrhaodd cynrychiolwyr yr ysgol y Pwyllgor fod pob cyfle yn cael ei archwilio i wella profiadau dysgu a rhoi mwy o hyblygrwydd o ran dysgu ar y cyd â chyflwyno'r cwricwlwm newydd yn fuan ar gyfer ysgolion uwchradd. Yn hyn o beth, cyfeiriodd Swyddogion at y modelau dysgu amgen sy'n cael eu treialu ar gyfer disgyblion hŷn i hyrwyddo dysgwyr annibynnol a pharatoi disgyblion ar gyfer addysg uwch. Fodd bynnag, esboniwyd bod angen cydweithio pellach rhwng ysgolion er mwyn sicrhau bod technoleg yn cael ei defnyddio'n gywir i gyrraedd ei llawn potensial. Sicrhawyd y Pwyllgor hefyd y byddai dysgu cyfunol yn cael ei ddefnyddio fel dull o gefnogi dysgu ac na fwriedid iddo gymryd lle cyswllt dynol.

Canmolodd y Pwyllgor yr ysgolion am yr ymdrechion rhagorol a wnaed mewn ymateb i bandemig Covid-19 a rhoddwyd diolch i'r cynrychiolwyr am y cyflwyniad llawn gwybodaeth a gwerthfawr. Awgrymodd yr Aelodau y gallai disgyblion fod yn rhan o sesiynau ymgysylltu yn y dyfodol i gyfleu eu profiadau'n uniongyrchol i'r Pwyllgor. Cytunwyd y dylid gwneud hynny.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

### **5. YMGYNGHORI YNGHYLCH STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW 2022/23 TAN 2024/25**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth Cyllideb Refeniw y Cyngor 2022/23 i 2024/25 a oedd yn rhoi golwg gyfredol ar y gyllideb refeniw ar gyfer 2021/2022 ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023/24 a 2024/25.

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am broses y gyllideb, setliad dros dro presennol Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd ar 21 Rhagfyr 2021 ac amserlen y setliad terfynol ac yn clustnodi'r gwasgfeydd dilysu a'r gwasgfeydd cyllidebol y byddai'n rhaid i'r Aelodau roi sylw iddynt wrth bennu cyllideb refeniw'r flwyddyn nesaf.

Er bod llawer o waith eisoes wedi'i wneud wrth baratoi'r gyllideb, dywedwyd mai datganiad sefyllfa cychwynol oedd yr adroddiad hwn a fyddai'n cael ei ddiweddarau yn dilyn y broses ymgynghori. Yn unol â hynny, atgoffwyd Aelodau bod yr adroddiad wedi'i ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr 2022 a bod aelodau'r Pwyllgor wedi mynychu digwyddiadau ymgynghori yn ddiweddar, a

oedd yn rhoi cyfle i ofyn cwestiynau a chael eglurhad ynghylch gwahanol agweddau ar y gyllideb.

Nododd yr adroddiad, ar ôl addasiadau ar gyfer trosglwyddiadau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, mai 9.2% (£26.335 miliwn) oedd y cynnydd yn y setliad dros dro ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Felly, roedd y Cyllid Allanol Cyfun wedi cynyddu i £311.957 miliwn yn 2022/23 a oedd yn cynnwys cyflog athrawon ac yn cynnwys £302k mewn perthynas â Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at adran 3.5 o strategaeth y gyllideb lle rhoddwyd trosolwg o gyllidebau dirprwyedig yr ysgolion i'r Aelodau. Er y mynegwyd pryderon bod llawer o grantiau gwasanaethau penodol yn aros ar lefel debyg i flynyddoedd blaenorol o ystyried effaith dyfarniadau cyflog a chwyddiant cyffredinol, dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn parhau ar gyfer 2022/23, ac y byddai'r grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r grant Datblygu Disgyblion yn cael eu cynyddu.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth gyllidebol fanwl ganlynol a oedd wedi'i hatodi i'r Strategaeth ac a oedd yn berthnasol i'w faes gorchwyl:-

- **Atodiad A(i)** – Crynodeb o'r arbedion effeithlonrwydd ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant.
- **Atodiad A(ii)** – Crynodeb o Bwysau Twf ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant.
- **Atodiad B** – Adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant.
- **Atodiad C** – Crynhoad Taliadau ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant.

Dywedwyd bod y setliad terfynol i fod i gael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ar 1 Mawrth 2022 a byddai unrhyw ddiwygiadau y mae'n ofynnol eu hystyried mewn perthynas â Strategaeth y Gyllideb sy'n deillio o'r cyhoeddiad hwnnw hefyd yn cael eu hystyried gan y Cyngor yn ei gyfarfod a drefnwyd ar gyfer 2 Mawrth, 2022.

Roedd swyddogion wedi ymdrin â nifer o ymholiadau ac arsylwadau gan aelodau, fel a ganlyn:

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch nifer yr ysgolion sy'n manteisio ar y gronfa Galedi, eglurodd Swyddogion yn briodol y paramedrau o ran ysgolion yn cyflwyno cais am y cyllid. Esboniwyd i'r Aelodau y byddai costau cyffredin fel arfer yn cael eu talu o gyllidebau adrannol corfforaethol. Hefyd, pwysleisiwyd bod amgylchiadau ysgolion unigol, o ran graddfa effaith pandemig Covid-19 mewn meysydd fel staffio, yn amrywio ledled y sir. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor y darperir cyfathrebu rheolaidd i bob ysgol er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn ymwybodol o'r cyllid sydd ar gael ac yn cael ei hannog i wneud cais yn unol â meini prawf cymhwysedd.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at ddarparu peiriannau puro aer ar gyfer ysgolion a holodd am lefel y cyllid sydd ar gael i'r Cyngor. Eglurodd y Pennaeth Mynediad i Addysg fod cyllid o tua £134,000 wedi'i dderbyn i ymdrin ag awyru a bod data'n cael ei gasglu ar hyn o bryd i bennu gofynion yr ysgol yn hyn o beth. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cyfanswm o 36 o unedau puro aer wedi'u caffael a'u dyrannu hyd

yma, a oedd yn ddigonol i fodloni'r galw presennol. Fodd bynnag, nodwyd ei bod yn debygol y byddai angen gwella'r dyraniad cyllid ar gyfer yr ateb tymor hwy er mwyn galluogi adeiladau ysgol â phroblemau awyru a nodwyd i gael eu hôl-ffitio â hidlyddion priodol. Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Addysg at y Rhybudd o Gynnig a ystyriwyd mewn cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2022 a nododd ei fod yn aros am ymateb gan y Gweinidog i gadarnhau'r cyngor gan y Grŵp Cynghori Technegol a chynnydd Llywodraeth Cymru o ran caffael ac ariannu Hidlenni Aer Gronynnol Effeithlon iawn a/neu Uwchfioled mewn ysgolion.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod llythyr y Gweinidog a ddarparwyd gyda'r setliad yn nodi'n glir bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Cyngor dalu cost unrhyw ddyfarniadau cyflog yn y dyfodol o'r setliad gwell a chadarnhaodd fod y dyfarniadau cyflog o 4% ar gyfer athrawon ar gyfer 2022/23 wedi'u hadlewyrchu yn y gyllideb ddirprwyedig.

Mynegwyd pryderon ynghylch y gostyngiad yn nifer yr ysgolion ar gyfer 2024/25. Eglurwyd bod adolygiad o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg (MYA) ar y gweill ar hyn o bryd, ac ar ôl hynny byddai'r mater yn cael ei ystyried ymhellach.

Canmolodd y Pwyllgor Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a'i dîm am ddatblygu cyllideb yng nghyd-destun pandemig Covid-19 ac amgylchiadau na welwyd eu tebyg o'r blaen, er mwyn sicrhau darpariaeth briodol o wasanaethau i Sir Gaerfyrddin.

## **PENDERFYNWYD:**

**5.1 Bod yr Ymgynghoriad ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 - 2024/25 yn cael ei dderbyn;**

**5.2 Bod y Crynhoad Taliadau a nodir yn Atodiad C yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.**

## **6. CYNLLUN BUSNES YR ADRAN ADDYSG A PHLANT 2022/23 - DRAFFT**

Rhodddwyd trosolwg i'r Aelodau o'r cynllun busnes drafft ar gyfer yr adran Addysg a Phlant a oedd â'r nod o gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol. Aeth y Pwyllgor ati i ystyried blaenoriaethau'r adran ar gyfer 2022-23 mewn perthynas â'r meysydd canlynol sydd o fewn ei faes gorchwyl:

- Mynediad i Addysg
- Gwasanaethau Plant
- Cwricwlwm a Llesiant
- Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant

Cyfeiriwyd at yr arferion effeithiol a'r methodolegau newydd a ddatblygwyd o dan gyfyngiadau Covid-19; lle cydnabuwyd y byddai llawer o ddulliau a mentrau yn rhan o arferion gwaith yn y dyfodol.

Rhodddwyd sylw i nifer o arsylwadau ac ymholiadau, fel a ganlyn:

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant i'r Aelodau fod Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen 208/19, a oedd yn

cynnwys argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad o Bolisi Derbyniadau Ysgolion Sir Gaerfyrddin, i'w ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2022. Nododd y Pwyllgor y byddai'r cynllun busnes yn cael ei ddiweddarau'n briodol i adlewyrchu penderfyniadau'r Cabinet.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at y fformiwla ariannu ar gyfer ADY a gofynnodd am ddiweddariad yn hyn o beth. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant y cytunwyd ar gyfeiriad clir ymhlith ysgolion uwchradd, ond, oherwydd yr amrywiadau o ran maint ymhlith ysgolion cynradd, penderfynwyd y byddai cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu ar sail blaenoriaeth fel rhan o'r gwariant twf. Eglurwyd bod y fformiwla ariannu cyffredinol wedi cael ei hadolygu i fynd i'r afael â'r pwysau a nodwyd gan ysgolion. Yn dilyn cyfnod ymgynghori sydd ar fin digwydd, rhagwelwyd y byddai'r fformiwla ariannu ddiwygiedig yn cael ei roi ar waith o fis Mawrth 2022.

Mynegwyd pryderon bod adborth wedi dod i law gan ysgol a oedd wedi cael anawsterau wrth gysylltu â'r Cyngor i roi gwybod am faterion cynnal a chadw a'u datrys. Rhoddwyd esboniad i'r Pwyllgor o'r broses i'w dilyn yn hyn o beth a rhoddwyd sicrwydd bod gweithdrefn un dudalen syml yn cael ei datblygu ar gyfer ysgolion ar hyn o bryd.

Gofynnwyd am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gwasanaethau cerddoriaeth. Eglurodd Pennaeth Dros Dro Effeithiolrwydd Ysgolion fod cyfleoedd dysgu cyfunol wedi'u darparu i ysgolion yn ystod pandemig Covid-19 ar sail blaenoriaeth, yn ogystal â chymorth Cwricwlwm Cyfnod Allweddol 2. Roedd Aelodau'n falch o gael nodi bod cynnydd yn cael ei wneud yn y maes hwn.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

## **7. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL**

Cafodd y Pwyllgor restr o eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor a fydd yn cael ei gynnal ar 16 Mawrth, 2022. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant y byddai Swyddog Arweiniol newydd, sef Mr Ian Altman, yn cael ei wahodd i fynychu'r cyfarfod nesaf i gymryd rhan yn y drafodaeth ynghylch y Model Cydweithredu Rhanbarthol newydd.

Wrth adolygu Blaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22, nodwyd y gallai'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 26 Ebrill 2022 gael ei ohirio yn unol â chanllawiau cyn yr etholiad, a byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei dosbarthu i'r Aelodau maes o law.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.**

## **8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 23 RHAGFYR 2021**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Rhagfyr, 2021 gan eu bod yn gywir.**

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**